**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL EIDDO DIWYLLIANNOL (GWRTHDARO ARFOG)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

2. Cyflwynwyd y Bil Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog) (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Mai 2016. Mae'r Bil i'w weld yma: http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2016-2017/0003/lbill_2016-20170003_en_1.htm

## Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai amcan y polisi hwn yw galluogi'r DU i weithredu Confensiwn yr Hag ar Warchod Eiddo Diwylliannol ar adeg o Wrthdaro Arfog, a'i ddau Brotocol ("Confensiwn yr Hag"), er mwyn gwneud datganiad cryf am ymrwymiad y DU i warchod eiddo diwylliannol ar adeg o wrthdaro arfog.

4. Mae Confensiwn yr Hag, a fabwysiadwyd ar ôl y dinistr aruthrol a welwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn darparu ar gyfer system o warchodaeth gyffredinol ac arbennig ar gyfer eiddo diwylliannol pan fo gwrthdaro arfog, pa un a yw'r gwrthdaro hwnnw'n rhyngwladol ai peidio. Mae'n ofynnol i'r rheini sy'n bartïon i Gonfensiwn yr Hag barchu eiddo diwylliannol yn eu tiriogaeth eu hunain a hefyd eiddo diwylliannol ar diriogaeth Partïon eraill, drwy beidio â'i ddefnyddio, na'r tir sy'n uniongyrchol o'i amgylch, at ddibenion sy'n debygol o olygu y bydd yn cael ei ddinistrio neu ei ddifrodi os bydd gwrthdaro arfog, a thrwy beidio â chyflawni unrhyw weithred elyniaethus yn erbyn yr eiddo.

5. Fe'i dilynwyd gan ddau Brotocol. Mae'r cyntaf, ym 1954 (y "Protocol Cyntaf"), yn ymdrin â rhwymedigaethau mewn perthynas ag eiddo diwylliannol mewn tiriogaethau a feddiannwyd, a hynny ar y pŵer sy'n eu meddiannu, ac ar wledydd sy'n dod o hyd i eiddo diwylliannol sydd wedi'i allforio o diriogaethau a feddiannwyd sydd o dan eu hawdurdodaeth hwy. Mae'r ail, ym 1999 (yr "Ail Brotocol"), yn ehangu ac yn egluro'r rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn yr Hag. Yn benodol, mae'n nodi pum gweithred – pob un ohonynt yn ddifrifol groes i'r Ail Brotocol – sydd i'w hystyried yn drosedd o dan y Protocol Cyntaf.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

7. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyflwyno nifer o fesurau a fyddai’n galluogi'r DU i weithredu Confensiwn yr Hag a'i ddau Brotocol fel a ganlyn:

    - Cyflwyno troseddau y bwriedir iddynt warchod eiddo diwylliannol os bydd gwrthdaro arfog yma yn y DU a thramor. Yn eu plith y mae'r drosedd o wneud eiddo o'r fath yn wrthrych ymosodiad.

    - Cyflwyno'r Darian Las yn arwyddlun bod eiddo diwylliannol yn cael ei warchod o dan Gonfensiwn yr Hag a'i ddau Brotocol.

    - Cyflwyno trosedd o ddelio mewn eiddo diwylliannol a gafodd ei allforio'n anghyfreithlon o diriogaeth a feddiannwyd a darpariaeth i atafaelu eiddo o'r fath a'i roi yn ôl i'r diriogaeth a feddiannwyd ar ôl i'r ymladd ddod i ben, os yw hynny'n briodol.

    - Cyflwyno imiwnedd rhag atafaelu eiddo diwylliannol yn y DU sy'n cael ei gludo er mwyn ei gadw'n ddiogel yn ystod gwrthdaro rhwng dwy neu fwy o wladwriaethau eraill.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

8. Ceisir cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Rhannau 2, 3 a 5 o'r Bil.

9. Mae Rhan 2 o'r Bil yn ei gwneud yn drosedd i'r Ail Brotocol gael ei dorri'n ddifrifol, naill ai yn y DU neu dramor, ac mae'n estyn atebolrwydd troseddol i gadlywyddion a'u penaethiaid sy'n methu ag atal trosedd rhag cael ei chyflawni mewn amgylchiadau penodol. Mae'r achosion o dorri difrifol, a nodir yn yr Ail Brotocol, yn cynnwys:

    - gwneud eiddo diwylliannol yn wrthrych ymosodiad;
    - defnyddio eiddo diwylliannol i gefnogi gweithredu milwrol;
    - dinistrio eiddo diwylliannol yn helaeth neu ei berchenogi;
    - fandaleiddio, dwyn, ysbeilio neu gam-berchenogi eiddo diwylliannol yng nghyd-destun gwrthdaro arfog.

    Ymdrinnir hefyd â throseddau ategol megis helpu neu gynllwynio i gyflawni trosedd. Y gosb uchaf ar gyfer y troseddau hyn yw 30 mlynedd o garchar.

10. Mae Rhan 3 o'r Bil yn atal y Darian Las, sef yr arwyddlun diwylliannol a grëwyd gan Gonfensiwn yr Hag i nodi bod eiddo diwylliannol yn cael ei warchod, rhag cael ei ddefnyddio heb awdurdod. Bydd yn drosedd defnyddio'r arwyddlun mewn modd nas awdurdodwyd gan y Bil neu oddi tano. Mae'r Bil yn nodi'r hyn a olygir wrth ddefnydd awdurdodedig o'r arwyddlun ac mae'n rhoi i'r awdurdod cenedlaethol priodol y pŵer i

ddynodi ffyrdd awdurdodedig eraill o'i ddefnyddio. Mae cymalau 12 a 15 yn darparu mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol ar gyfer y Rhan hon, ac mai mater iddynt hwy yw rhoi caniatâd i ddefnyddio'r arwyddlun diwylliannol yng Nghymru.

11. Mae Rhan 5 o'r Bil yn rhoi imiwnedd rhag atafaelu neu fforffedu eiddo diwylliannol y mae ganddo'r hawl i gael ei warchod yn arbennig o dan Erthygl 12 o Gonfensiwn yr Hag oherwydd ei fod yn cael ei gludo i'r DU, neu drwy'r DU i gyrchfan arall, i'w gadw'n ddiogel yn ystod cyfnod o wrthdaro arfog.

12. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag eiddo diwylliannol o dan ddarpariaethau paragraffau 2 a 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog)

13. Drwy wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil, bydd modd sicrhau bod y DU yn ei chyfanrwydd yn gallu cryfhau ei hymrwymiad i warchod ei threftadaeth ei hun, a bydd hefyd yn pwysleisio'r angen i barchu eiddo diwylliannol cenhedloedd eraill. Mae'r Bil yn gwireddu ymrwymiad a wnaed ers amser maith, yn 2004, i weithredu Confensiwn yr Hag a'i Brotocol gynted ag y gellid.

14. Dylid edrych ar y Bil yng nghyd-destun digwyddiadau rhyngwladol diweddar a'r dinistrio a fu ar eiddo diwylliannol yn y Dwyrain Canol. Mae gweithredu'r Confensiwn a'i Brotocolau, drwy gyfrwng y Bil, yn hanfodol i hygrededd y DU o ran bwrw ymlaen â'r agenda gwarchod treftadaeth.

.

## Goblygiadau ariannol

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ei gydsyniad i'r darpariaethau fod yn gymwys i Gymru.

## Casgliadau

16. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i gael eu cymhwyso mewn perthynas â Chymru. Mae'n bwysig bod y Bil hwn yn cael ei weithredu ar lefel y DU gyfan er mwyn dangos ein bod yn gweithredu mewn ffordd gydlynol ledled y DU i warchod eiddo diwylliannol. Drwy weithredu Confensiwn yr Hag, bydd y DU yn cryfhau ei hymrwymiad i warchod ei threftadaeth ei hun a threftadaeth cenhedloedd eraill.

**Ken Skates AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet  dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Mehefin 2016**